

EGLWYS TEILO SANT, AMGUEDDFA WERIN CYMRU

CWMPLIN AC ANTIFFON
AR GYFER Y GROES SANCTAIDD

DYDD MAWRTH 13 MEDI 2011

CWMPLIN GYDAG ANTIFFON
AR GYFER ENW SANCTAIDD YR IESU

DYDD IAU 15 MEDI 2011

YN DILYN Y DREFN A SEFYDLWYD YN
EGLWYS GADEIRIOL CAERSALLOG AC A
DDEFNYDDID MEWN EGLWYSI YNG NGHYMURU
YN YSTOD YR OESOEDD CANOL DIWEDDAR



Y
PROFIAD
O ADDOLI

TREFN CWMPLIN AC ANTIFFON

Dydd Mawrth: ar gyfer y Groes Sanctaidd

Dydd Iau: ar gyfer Enw Sanctaidd yr Iesu.

Gwersiglau

Salmau 4, 30 (adnodau 1-6), 90 a 133, cenir gydag un antiffon

Darlleniad

Emyn

Gwersiglau

Nunc dimittis gydag antiffon

Kyrie, Pater noster (Ein Tad), Credo

Preces

Cyffes a Maddeuant

Preces

Colect

Benedicamus Domino

Gorymdaith i'r Grog ar gyfer Seremoni'r Antiffon

(gan gynnwys Antiffon, Gwers, Colect)

Mae Cwmplin yn hen wasanaeth mynachaid a gynhelir gyda'r nos. Yn nes ymlaen, cafodd ei fabwysiadu gan yr Eglwys Orllewinol yn ei chyfanrwydd, ac erbyn diwedd yr Oesoedd Canol roedd yn gyffredin iddo gael ei ganu gyda'r nos cyn i'r mynaich fynd i'w gwelyau.

Mae'r offrwm antiffon sy'n dilyn y Cwmplin heno hefyd â gwreiddiau cynnar ac yn tarddu o'r ddefod hynafol o weddio dros fwriad penodol neu sant fel diweddglo i Wasanaeth. Yn ystod yr Oesoedd Canol diweddar, daeth yn arferol i'r ddefod fer hon gael ei chanu o flaen y groes, neu gerflun neu ddelwedd gysylltiedig, weithiau gydag addurn polyffonig.

Heno, cenir y ddwy ddefod mewn plaengan Ladin, er bod yr antiffon sy'n dilyn y salmau, rhai o benillion yr emynau, a'r antiffon offrymol i gloi i gyd wedi'u haddurno â pholyffoni syml, gan gantorion neu organ.

Y GROES SANCTAIDD

13 Medi yw noswyl Gŵyl Dyrchafiad y Groes Sanctaidd, a elwir weithiau'n 'Offeren y Groes' ('*Crouch Mass*' neu '*Rood Mass*') yn yr Eglwys ganoloesol. Yn ôl traddodiad, hwn yw'r diwrnod y cysegrwyd Eglwys y Beddrod Sanctaidd yng Nghaersalem yn y flwyddyn 335, yn sgil darganfyddiad rhan o'r Wir Groes gan y Santes Helena, mam Cystennyn Fawr. Y trannoeth (14 Medi), dygwyd y groes allan i'w mawrygu gan y cyhoedd. Wedyn, daeth Addoliad y Groes yn gyffredin ar hyd a lled Ewrop yn yr Oesoedd Canol, wrth i lawer o leoedd gynnal antiffon offrymol y Groes Sanctaidd bob dydd Gwener (neu, mewn rhai achosion, Offeren a Gwasanaeth cyflawn).

ENW SANCTAIDD YR IESU

Cychwynnwyd ar addoliad Litwrgaidd i anrhydeddu Enw Sanctaidd yr Iesu yn ystod y 14^{eg} ganrif, ond daeth yn fwyfwy cyffredin ar draws Lloegr tua diwedd y 15^{fed} ganrif a dechrau'r 16^{eg} ganrif. Roedd hynny'n rhannol oherwydd ymdrechion y Fonesig Margaret Beaufort (1441/3–1509), mam Harri VII, a lwyddodd i sicrhau Bwl gan y Pab a hefyd maddeueb ar gyfer Gŵyl yr Enw Sanctaidd, gan gynorthwyo trwy hynny i'w sefydlu, ym 1489, yn ŵyl swyddogol i'r Eglwys, i'w dathlu ar 7 Awst. Mae'r addoliad yn coffáu Enw ein Hiachawdwr, a'r rhoddion dwyfol y mae ynganu'r enw hwnnw'n eu cyflwyno – gras, daioni, iechyd a nerth. Nid ennyd yn oes Crist a ddethlir yn yr addoliad ond, yn hytrach, nodwedd o'i ddynoliaeth, ac un yr ydym i gyd yn gyfranogol ynddi, sef rhoi enw ac ystyr enw.

Y PROFIAD O ADDOLI: Y PROJECT

DIGWYDDIADAU AR Y GORWEL

Dydd Iau 6 Hydref, 2011: Yr Eglwys Gadeiriol, Caersallog

17.30 Cymundeb Lladin Enw Sanctaidd yr Iesu

Cyn ac ar ôl y Cymundeb hwn, ceir hefyd gwrs cysylltiedig yn cyflwyno Offfrwm yr Iesu ac addoliad yr Enw Sanctaidd ac yn adfyfrio arnynt, yng Ngholeg Sarum, Caersallog (mae angen archebu ymlaen llaw – gweler isod).

Dydd Sul 9 Hydref, 2011: Yr Eglwys Gadeiriol, Caersallog

9.30 Gorymdaith Enw Sanctaidd yr Iesu cyn y Cymundeb

Y diwrnod cynt, sef dydd Sadwrn 8 Hydref, ceir cyflwyniad i'r Orymdaith yng Nghwîr Eglwys Gadeiriol Caersallog. Bydd hwn yn cychwyn am 14.15 pm, ac yn para am ryw awr. Nid oes angen archebu ymlaen llaw.

MWY O FANYLION A MANYLION AM ARCHEBU

www.experienceofworship.org.uk

experienceofworship@bangor.ac.uk +44 (0)1248 382490

Y Profiad o Addoli, Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor, Bangor LL57 2DG

AM Y PROJECT YMCHWIL

Mae'r gwasanaeth heno yn un o ddeilliannau Y Profiad o Addoli mewn Eglwys Gadeiriol ac Eglwys Blwyf Ganoloesol Ddiweddar, project ymchwil o bwys, a gomisiynwyd gan Gyd-Raglen Ymchwil AHRC/ESRC ar Grefydd a Chymdeithas, a than arweiniad Yr Athro John Harper, Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor. Prif amcan y project yw archwilio'r math o brofiad a gâi pobl wrth addoli tua diwedd yr Oesoedd Canol, a'r modd y gallwn gysylltu ein profiad presennol o ymweld ag eglwysi cadeiriol ac eglwysi sy'n dal i sefyll, o fewn y testunau, yr arteffactau a'r gerddoriaeth a ddefnyddid ar un adeg o'u mewn.

Hoffem ddiolch o galon i holl staff yr Amgueddfa Werin Cymru am eu lletygarwch a'u cymorth.

